



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Allensbank
Stryd Llanisien
Y Mynydd Bychan
Caerdydd
CF14 3QE**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Allensbank

Mae Ysgol Gynradd Allensbank wedi'i lleoli ychydig y tu allan i ganol Caerdydd. Mae 213 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 oed ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys 21 o ddisgyblion sy'n mynychu'r meithrin yn rhan-amser. Mae saith dosbarth; tri yn y cyfnod sylfaen, a phedwar yng nghyfnod allweddol 2. Mae gan yr ysgol ganolfan adnoddau arbenigol hefyd, sy'n cefnogi un disgybl. Mae'r awdurdod lleol wrthi'n dirwyn y cyfleuster hwn i ben, ac yn datblygu darpariaeth ymyrraeth gynnar yn yr ysgol.

Y cyfartaledd treigl tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yw tua 23%. Mae'r ffigur hwn uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 18%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 15% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae gan chwech o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Daw tua 42% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y famiaith. Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae tua 75% o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2013, a chynhaliwyd yr arolygiad diwethaf ym mis Rhagfyr 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae pob un o'r staff yn Ysgol Gynradd Allensbank yn gweithio'n ddiwyd i greu ethos hapus, gofalgarg a chynhwysol yn yr ysgol. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol rhwng disgyblion a gyda phob un o'r oedolion yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn, yn enwedig y rhai ag anghenion addysgol arbennig a'r rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Caiff llawer o ddisgyblion gyfleoedd da iawn i gymryd rhan mewn rolau arwain yn yr ysgol, ac mae'r rhain wedi cael effaith gref ar wella'r ysgol. Mae agweddau tuag at ddysgu yn gadarnhaol iawn, ac mae disgyblion ym mhob dosbarth yn mwynhau eu dysgu, ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig.

Mae arweinwyr a staff yn gweithio'n fedrus i greu darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Defnyddiant amrywiaeth o ddulliau, sy'n effeithio'n gadarnhaol iawn ar gyflawniad disgyblion, a'u synnwyr o les.

Mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir ochr yn ochr â thîm staff ymroddgar sy'n dangos ymrwymiad cryf tuag at gynorthwyo pob un o'u disgyblion i gyflawni a ffynnu.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Datblygu safonau disgyblion mewn rhifedd a datrys problemau ar draws y cwricwlwm
- A2 Datblygu cyfleoedd pellach ar draws y cyfnod sylfaen i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth wrth ddewis gweithgareddau dysgu heriol dan do ac yn yr awyr agored
- A3 Datblygu cyfleoedd ystyrion i ddisgyblion ar draws yr ysgol ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith o ran darpariaeth ar gyfer dysgwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae medrau llawer o ddisgyblion islaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion arbennig, a disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, yn gwneud cynnydd cryf iawn.

Nid yw medrau llafaredd llawer o ddisgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae bron pob un o'r rhain yn gwella'r medrau hyn yn gyflym ac yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion meithrin yn gwrando'n astud ar athrawon, ac yn dechrau ymuno yn ystod caneuon a rhigymau cyfarwydd, gan gynnwys rhai Cymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando da, ac yn eu defnyddio'n effeithiol yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws cyfnod allweddol 2 yn datblygu medrau siarad a gwrando hynod effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn trafod, yn cymharu ac yn esbonio eu syniadau ynglŷn â sut mae gwahanol ddeunyddiau yn inswleiddio yn erbyn sain.

Wrth iddynt symud trwy'r cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill medrau darllen cynnar cryf. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth am ffoneg i ddadgodio geiriau, ac yn dechrau darllen testunau priodol â dealltwriaeth. Ar ddechrau cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen â mynegiant a brwdfrydedd, gan ddatblygu cariad at lyfrau. Maent yn trafod eu hoff ffurfiau ac awduron, fel 'ffuglen wyddonol' a Roald Dahl. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen â rhuglder a chywirdeb. Defnyddiant fedrau lefel uwch yn effeithiol i wneud rhagfynegiadau, dod o hyd i wybodaeth yn gyflym, a gwneud synnwyr o eiriau anghyfarwydd gan ddefnyddio cyd-destun y frawddeg, er enghraifft wrth drafod ystyr y gair 'outlaw' mewn llyfr am 'Robin Hood'.

Yn y meithrin, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu yn effeithiol. Maent yn creu marciau wrth chwarae rôl; er enghraifft, wrth gymryd arnynt eu bod yn feddyg, maent yn cymryd 'nodiadau manwl' am salwch claf. Ym Mlwyddyn 1, mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu llyfrau byr yn annibynnol am ddeinosoriaid gan ddefnyddio geiriau o gwmpas yr ystafell ddosbarth i'w helpu. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth am ffoneg i helpu sillafu geiriau cyffredin yn gywir, ac yn ysgrifennu gan ddefnyddio iaith ddisgrifiadol effeithiol. Er enghraifft, wrth greu cerddi am dân gwyllt, mae disgyblion yn disgrifio'r lliwiau fel 'shimmering scarlet', 'magnificent magenta' a 'glorious gold'.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig ac at ystod eang o ddibenion. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgrifennu llythyrau fel cymeriad yn llyfr 'Carrie's War'. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sillafu'n gywir ac yn defnyddio amrywiaeth briodol o atalnodi i drefnu eu gwaith. Mae mwyafrif y disgyblion yn cymryd gofal a balchder wrth gyflwyno eu gwaith, ac er bod arddulliau llawysgrifen yn amrywio, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu'n eglur ac yn rhugl. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ysgrifennu'n dda mewn pynciau a chyd-destunau eraill, ac yn datblygu eu medrau'n effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn ysgrifennu dadleuon cytbwys am fanteision ac anfanteision cynyddu faint rydym yn ei ailgylchu.

Yn y derbyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod ac yn trefnu rhifau i 10 yn gywir, ac yn gwybod enwau siapiau syml fel sgwariau a chylchoedd. Mae disgyblion mwy abl yn cyfrif fesul 10, ac yn dechrau cyfrif fesul 5. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhif i ddatrys problemau syml sy'n cynnwys arian, ac mae llawer ohonynt yn dechrau disgrifio priodoleddau siapiau tri dimensiwn cyffredin. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu medrau mathemategol cryf, ac ym Mlwyddyn 4, gallant ddarganfod ffracsiynau cyfwerth syml, creu eu siartiau bar eu hunain, a mesur i'r milimedr agosaf yn lled gywir. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae gan lawer o ddisgyblion ystod dda iawn o fedrau rhif. Maent yn defnyddio eu tablau yn effeithiol ac yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau pen ac ysgrifenedig. Er enghraifft, wrth gyfrifo cost cynhyrchu gwahanol hufen iâ, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn dewis eu hoff ddull o wneud cyfrifiadau yn gywir. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd a datrys problemau yn rheolaidd ar lefel briodol mewn pynciau eraill.

Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at siarad Cymraeg, ac maent yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a chwestiynau gan staff. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg mewn arferion bob dydd, yn mynegi eu hoffterau a'u casbethau, ac maent yn hyderus wrth siarad mewn cyd-destunau cyfarwydd. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn darllen â lefel addas o ruglder ac yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu cyfweiliadau ag enwogion ac yn llunio adroddiadau ar y tywydd gan ddefnyddio amrywiaeth o gysyllteiriau ac amserau yn dda.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran gwella eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Erbyn Blwyddyn 2, mae disgyblion yn defnyddio TGCh i'w helpu i wella eu medrau rhifedd a llythrennedd trwy chwarae gemau a chreu gweithdrefnau syml i ganiatáu iddynt reoli robot tegan. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio TGCh yn briodol i gefnogi eu dysgu mewn pynciau eraill. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn creu fideos o ansawdd da gan ddefnyddio amrywiaeth o offer golygu i'w mireinio a'u gwella. Er enghraifft, maent yn creu fideo ar gyfer plant eraill ar draws yr ysgol i esbonio sut i aros yn ddiogel ar-lein. Fodd bynnag, nid oes gan ddisgyblion fedrau digon cryf yn holl feysydd y cwricwlwm TGCh, fel defnyddio taenlenni a chronfeydd data.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae safon uchel lles disgyblion yn gryfder sylweddol yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn saff mewn amgylchedd cyfeillgar a chynhwysol, sy'n cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth. Maent yn cydnabod gwahaniaethau ei gilydd ac yn dangos goddefgarwch a pharch at aelodau o gymuned yr ysgol.

Mae disgyblion yn mwynhau'r ysgol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos ymddygiad eithriadol o dda mewn gwersi, wrth symud o gwmpas yr ysgol, ac yn ystod amser chwarae. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o ofal a phryder at ei gilydd, ac mae ganddynt berthnasoedd gwaith cryf a pharchus ag oedolion yn yr ysgol. Maent yn gwybod ble i droi am gymorth, pan fydd angen. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dangos caredigrwydd tuag at eu cyfoedion, ac yn cynorthwyo disgyblion eraill i fod yn rhan o deulu'r ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn canolbwyntio ac yn cymryd rhan yn dda mewn gwersi. Maent yn ddysgwyr uchelgeisiol a brwdfrydig sy'n barod i ddysgu ac ymgymryd â heriau newydd. Maent yn mynd ati i wneud eu gwaith yn gadarnhaol, a gallant ddyfalbarhau â thasgau anghyfarwydd gan ddangos gwydnwch pan fyddant yn wynebu anawsterau. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n annibynnol, ac yn cydweithio'n effeithiol â'u ffrindiau. Maent yn dangos parch tuag at gyfraniadau cyfoedion, ac yn gwrando ac yn ymateb yn ofalus i'w syniadau. Er enghraifft, pan fyddant yn cael trafferth â thasgau, mae disgyblion hŷn yn dyfalbarhau trwy gymharu eu gwaith nhw â gwaith disgyblion eraill a chydweithio i wella eu dealltwriaeth eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Gall llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol esbonio'n glir iawn pa fwydydd sy'n iach, ac maent yn gwneud dewisiadau iach o ran eu pecyn cinio. Maent yn cadw'n heini, gan gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol rheolaidd yn ystod yr ysgol, ac ar ôl yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod sut i aros yn ddiogel ar y rhyngwyd.

Mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol a rolau arwain allweddol, y maent yn dangos ymrwymiad cryf iddynt. Mae'r rolau hyn yn datblygu disgyblion yn llwyddiannus fel dinasyddion moesegol, gwybodus a gweithgar. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi ymgymryd â'r prosiect 'Ysgolion Noddfa' i archwilio a gwella darpariaeth ar gyfer amrywiaeth ddiwylliannol. Maent yn gweithio â phenderfynoldeb a thrylwyrred i addysgu eu cyfoedion am yr angen am ddietau iach, ac maent wrthi'n datblygu darpariaeth gwricwlaidd allgyrsiol bellach ar gyfer chwaraeon ar hyn o bryd.

Mae'r eco-bwyllgor yn annog ailgylchu a lleihau faint o drydan y mae'r ysgol yn ei ddefnyddio. Maent yn hyrwyddo teithiau 'gweithredol' i'r ysgol, yn cynnal digwyddiadau ac yn cynnal cystadlaethau sy'n annog mwy o ddisgyblion i fynd ar feiciau, sgwteri neu gerdded. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar leihau nifer y plant sy'n teithio i'r ysgol mewn ceir.

Mae disgyblion o Flwyddyn 2 ymlaen yn ymgymryd â rôl 'Dehonglwyr Ifanc', ac yn cynorthwyo disgyblion newydd nad ydynt yn medru llawer o Saesneg, os o gwbl, i drosglwyddo'n hawdd i fywyd ysgol. Maent yn gweithio â sensitifrwydd a gofal i helpu disgyblion o gwmpas yr ysgol, ac annog eu cynhwysiant cymdeithasol yn ystod amser cinio. Maent yn cynnal clwb darllen rheolaidd i gefnogi datblygiad iaith ac yn defnyddio eu profiadau personol a'u medrau amlieithog i groesawu disgyblion newydd i deulu'r ysgol.

Caiff disgyblion gyfleoedd pellach i ddatblygu medrau arwain fel cyfeillion darllen, cyfeillion maes chwarae, llysgenhadon gwych ac arweinwyr digidol. Mae ymglymiad helaeth disgyblion o fewn y grwpiau arwain hyn yn effeithiol iawn o ran eu datblygu i fod yn aelodau cyfrifol o gymuned eu hysgol.

Er bod lefelau presenoldeb yr ysgol wedi gosod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf, bu gwelliant sylweddol dros gyfnod.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae gan athrawon a chynorthwyr addysgu berthnasoedd cadarnhaol iawn gyda disgyblion ar draws yr ysgol. Mae hyn yn gryfder penodol, ac o ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo a'u herio i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae athrawon yn rhannu bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant gyda disgyblion, sy'n eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'r ffordd y gall hunanasesu helpu gwella eu gwaith nhw, a gwaith eu cyfoedion. Mae athrawon yn cynllunio ystod ddifyr o weithgareddau sy'n herio disgyblion i ymarfer eu medrau ar y lefel briodol. Mewn llawer o achosion, mae staff yn annog disgyblion i ddatblygu annibyniaeth gynyddol, a meddwl drostyn nhw eu hunain. Mae ystafelloedd dosbarth yn ysgogol a difyr ar y cyfan, gan gynnwys waliau gwaith, y mae disgyblion yn eu defnyddio i gefnogi eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda ar eu gweithgareddau, ac yn gwneud cynnydd da dros gyfnod.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio technegau holi effeithiol i herio a datblygu dealltwriaeth disgyblion a darparu adborth defnyddiol ar gyfer disgyblion yn ystod gweithgareddau. Mae adborth ysgrifenedig yn fuddiol ar y cyfan, ond nid yw bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar y camau nesaf ar gyfer dysgu. Mae athrawon yn defnyddio ystod eang o wybodaeth asesu i sicrhau bod gweithgareddau'n darparu'r lefel briodol o her ar gyfer unigolion a grwpiau.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod cwricwlwm eang a chytbwys sy'n ddifyr ac y gellir ei addasu yn ôl anghenion yr holl ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r testunau sy'n cael eu hastudio, ac maent yn frwdfrydig ynglŷn â'u dysgu. Maent yn awyddus i ofyn cwestiynau, ac yn siarad am eu gwybodaeth wrth bobl eraill. Er enghraifft, mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn siarad yn estynedig am eu hwyau clai a'r deinosoriaid a allai fod y tu mewn iddynt, yn dibynnu ar siâp a maint yr ŵy.

Mae athrawon yn cynllunio ystod llwyddiannus o weithgareddau sy'n cwmpasu pob pwnc a maes dysgu trwy gydol y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2. Maent yn cydweithio'n dda i gynllunio gweithgareddau ystyrion sy'n cysylltu â themâu, er enghraifft gwneud bisgedi Tuduraidd gan ddilyn rysâit o'r cyfnod. Mae athrawon yn sicrhau eu bod yn integreiddio medrau allweddol llythrennedd, rhifedd a TGCh yn eu cynllunio. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu medrau mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn llwyddiannus trwy gydol eu holl waith. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn nodi cyfleoedd digonol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd a datrys problemau yn eu cyd-destun ar draws y cwricwlwm.

Caiff grwpiau ymyrraeth eu trefnu fel nad yw dysgwyr yn methu gweithgareddau yn y dosbarth yn rheolaidd. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn y dosbarthiadau arbenigol yn integreiddio'n dda iawn â'u cyfoedion a'u bod yn gallu elwa ar gwricwlwm cyfoethog.

Mae'r ysgol yn cynllunio gweithgareddau sy'n dathlu ei hamrywiaeth ddiwylliannol yn llwyddiannus. Mae staff yn croesawu aelodau o'r gymuned ehangach i'r ysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm. Maent yn integreiddio gwyliau arbennig disgyblion â gwaith wedi'i gynllunio, ac mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth a goddefgarwch o gredoau a gwerthoedd ei gilydd.

Mae athrawon yn defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol yn rheolaidd, ac yn gweithredu fel modelau iaith da. Gwneir defnydd priodol o'r Gymraeg mewn dosbarthiadau ac ar arddangosfeydd. Mae pob un o'r plant yn astudio storïau am Gymru, ac yn dysgu am ddiwylliant, hanes a daearyddiaeth Cymru. Mae teithiau ysgol yn gwella ymdeimlad disgyblion o le a pherthyn yng Nghymru.

Mae cynllunio athrawon ar gyfer y cyfnod sylfaen yn sicrhau bod cyfleoedd da ar gyfer dysgu parhaus ac estynedig ym mhob dosbarth. Fodd bynnag, er bod gweithgareddau yn aml yn ddifyr, nid yw disgyblion bob amser yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau yn eu dysgu, a datblygu eu hannibyniaeth. Er gwaethaf cyfyngiadau'r adeilad Fictoraidd, mae athrawon yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau awyr agored. Er bod y ddarpariaeth hon yn cefnogi datblygiad medrau disgyblion, nid yw bob amser yn darparu her ddigonol, yn enwedig ar gyfer plant hŷn a mwy galluog.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn amgylchedd gofalgarn a chefnogol iawn lle mae plant ac oedolion yn hyrwyddo parch a goddefgarwch ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'n achub ar bob cyfle i ddathlu amrywiaeth yn niwylliant ac iaith y disgyblion a'u teuluoedd, ac yn defnyddio strategaethau hynod effeithiol i gynorthwyo disgyblion y mae angen iddynt ddatblygu eu medrau Saesneg. Mae hyn yn gryfder arbennig yn yr ysgol.

Mae staff yn defnyddio ystod eang o ddata asesu i nodi a chynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed yn gyflym. Maent yn olrhain cynnydd disgyblion unigol yn drylwyr, ac yn sicrhau bod safonau'n cael eu cymedroli yn effeithiol a chywir. Mae uwch arweinwyr ac athrawon yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod anghenion dysgwyr unigol, ac adolygu effeithiolrwydd yr ymyriadau.

Mae pob un o'r staff yn monitro cynnydd disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a'r rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt (SIY) yn ofalus. Mae'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yn gweithio'n fedrus ochr yn ochr â staff i nodi a chynorthwyo dysgwyr sy'n agored i niwed. Mae staff yn defnyddio ystod eang o offer i asesu caffael iaith, cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd, presenoldeb a lles. Defnyddiant y wybodaeth hon i gynllunio darpariaeth ac ymyriadau addysgu effeithiol sy'n arwain at ddeilliannau cadarnhaol iawn ar gyfer bron pob un o'r disgyblion.

Mae arweinwyr yn arloesol wrth ddatblygu amrywiaeth o ymyriadau unigolion, grŵp a dosbarth bach sy'n effeithio'n gadarnhaol iawn ar gynnydd disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys dosbarth SIY arbenigol ag amgylchedd cyfoethog o ran iaith, sy'n cefnogi dysgwyr yn effeithiol iawn wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth hon yn gwneud cynnydd cyflym ac yn integreiddio'n llwyddiannus â'u cyfoedion.

Mae staff yn defnyddio cynlluniau addysg unigol i osod targedau priodol y maent yn eu defnyddio'n dda i lywio cynllunio, ac yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd gyda rhieni. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno proffiliau disgyblion manwl sy'n cynorthwyo ymagweddau personoledig effeithiol at addysgu a dysgu. Mae staff yn monitro lles disgyblion gan ddefnyddio ystod o wybodaeth i greu 'proffiliau bregusrwydd'. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus i fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.

Mae cynorthwyr cymorth dysgu yn darparu ystod o ymyriadau hynod effeithiol sy'n cynorthwyo disgyblion SIY ac yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, lles emosiynol a medrau echddygol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf ag amrywiaeth o asiantaethau allanol i gynorthwyo athrawon, gan gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith, seicolegwyr addysg ac athrawon cymorth awdurdodau lleol. Mae athro arbenigol yn gweithio'n dda gyda'r dosbarth SIY i gefnogi datblygiad iaith disgyblion.

Mae perthnasoedd cadarnhaol â'r gymuned leol yn helpu datblygu ethos gofalgwr a goddefgar. Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer hyrwyddo presenoldeb da sy'n arwain at welliannau parhaus yn nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfarfodydd tymhorol addysgiadol gydag athrawon dosbarth sydd hefyd yn llunio adroddiadau blynyddol manwl sy'n bodloni gofynion.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, yn ogystal â pherthnasoedd diogel. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Mae llawer ohonynt yn mynychu clybiau ar ôl yr ysgol, ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwersi addysg gorfforol. Mae disgyblion yn datblygu agweddau iach tuag at ddiogelwch ar-lein, alcohol, ymwybyddiaeth o gyffuriau a diogelwch personol. Mae gan yr ysgol gynllun gwaith wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer addysg personol a chymdeithasol, ac mae staff yn cynllunio gwersi effeithiol sy'n atgyfnerthu gwerthoedd caredigrwydd, gofal a gwydnwch yn rheolaidd. Mae uwch arweinwyr wedi gwranddo'n sensitif ar y gymuned fel bod gwersi mewn addysg rhyw a pherthnasoedd yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth ddiwylliannol yr ysgol. O ganlyniad, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n cael eu tynnu'n ôl o'r sesiynau hyn.

Un o nodweddion cryf yr ysgol yw'r perthnasoedd rhagorol rhwng disgyblion a staff. Mae'r ysgol yn rheoli ymddygiad yn dda ac mae systemau cadarn ar waith i ymateb i honiadau o fwlio. Mae pob un o'r unigolion yn ymdrechu i goleddu arwyddair yr ysgol, sef 'dim ond ein gorau fydd yn gwneud y tro' ('only our best will do').

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ysbrydolrwydd unigol yn ei disgyblion, gan gydnabod ei ffydd a'i diwylliannau amrywiol. Mae gwasanaethau dyddiol yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion ysbrydol, moesegol a moesol yn sensitif. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymwybodol o'u lle yn y byd ehangach, a cheir cyfleoedd da i ymchwilio i faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd, fel masnach deg a chynhesu byd-eang. Caiff disgyblion amrywiaeth o gyfleoedd i ymgymryd â phrofiadau diwylliannol, gan gynnwys dathlu iaith a diwylliant Cymru. Mae disgyblion yn siarad yn frwdfrydig iawn am ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae grwpiau disgyblion, gan gynnwys y cyngor ysgol a'r eco-bwyllgor yn gryfder arwyddocaol yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae ymglymiad disgyblion o ran dylanwadu ar gyfeiriad eu dysgu yn y dosbarth yn anghyson ar draws yr ysgol. Pan fydd staff yn gwneud hyn yn dda, mae disgyblion yn dangos balchder yn eu cyfraniadau ac yn mwynhau'r annibyniaeth hon.

Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth strategol glir ar gyfer yr ysgol, yn seiliedig ar ddatblygu cyrhaeddiad disgyblion a meithrin eu lles. Mae disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni yn rhannu ac yn cefnogi'r weledigaeth hon. Mae gan aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth rolau a chyfrifoldebau diffiniedig clir, ac maent yn cynorthwyo'r pennaeth yn fedrus. Ceir arweinyddiaeth ddosbarthedig effeithiol. Mae'r tîm yn hyrwyddo gwerthoedd ac ethos yr ysgol yn llwyddiannus, ac yn darparu lefelau da o gymorth, arweiniad a her ar gyfer athrawon a chynorthwywyr addysgu.

Mae aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth ac arweinwyr pwnc yn llunio cynlluniau datblygu gwerthfawr ar gyfer eu meysydd cyfrifoldeb, a thrwy gyfarfodydd tîm a chyfarfodydd staff rheolaidd, yn hyrwyddo dealltwriaeth ysgol gyfan o flaenoriaethau. Mae hyn yn arwain at gydweithio effeithiol ymhlith staff, sy'n gweithio gyda'i gilydd yn ddiwyd i ddatblygu'r ddarpariaeth yn yr ysgol.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn deall eu rolau'n dda. Maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r corff llywodraethol llawn, ac yn cyfarfod fel is-bwyllgorau i ganolbwyntio ar feysydd penodol, fel safonau a lles. Mae ganddynt berthynas gadarnhaol ag uwch arweinwyr a staff, a dangosir parch ar y ddwy ochr. Maent yn cyfarfod ag arweinwyr pwnc yn rheolaidd i drafod cynnydd, ac yn cymryd rhan mewn ystod werthfawr o weithgareddau yn yr ysgol, fel teithiau dysgu a chraffu ar lyfrau disgyblion. Mae gan lywodraethwyr ddarlun cywir a manwl o'r ysgol, ei chryfderau a'i meysydd i'w gwella, sy'n galluogi iddynt herio a chynorthwyo arweinwyr yn briodol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod rhaglen barhaus o weithgarwch hunanwerthuso ystyrion trwy gydol y flwyddyn. Mae hwn yn gylich sydd wedi'i ymgorffori'n dda, ac yn cynnwys pob un o'r staff. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd i rieni a disgyblion gyfrannu at y broses hunanwerthuso trwy holiaduron a thrafodaethau. Maent yn craffu ar gynllunio, ac yn ystyried safon y gwaith yn llyfrau disgyblion yn rheolaidd. Defnyddiant arsylwadau gwersi a theithiau dysgu'n dda i'w helpu i asesu ansawdd yr addysgu.

Mae prosesau hunanwerthuso yn bwydo'n dda i flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae arweinwyr a staff yn glir ynglŷn â blaenoriaethau'r ysgol, y camau sydd eu hangen i'w cyflawni a'u rôl o ran eu cyflawni. Mae targedau presennol yr ysgol ar gyfer gwella yn adlewyrchiad cywir o'i hanghenion datblygiadol. Mae arweinwyr yn dangos ffocws cynaliedig ar wella'r ysgol dros gyfnod, er enghraifft o ran gwella cynnydd disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd y caiff pob un o'r staff eu hannog i gydweithio â'u cydweithwyr yn yr ysgol, gyda phartneriaid mewn ysgolion eraill yn yr awdurdod lleol, a thu hwnt. Er enghraifft, mae 'rhaglen gwella arweinyddiaeth yr ysgol' yn darparu cyfleoedd ystyrion i staff gyfarfod â chydweithwyr o ysgolion eraill sydd â chyfrifoldebau tebyg iddyn nhw. Maent yn ymweld ag ysgolion ei gilydd ac yn rhannu arfer dda sydd, yn ei dro, yn ymestyn eu medrau a darpariaeth yn eu hysgol eu hunain. Mae llwybr dysgu llwyddiannus ar gyfer cynorthwywyr addysgu lle caiff unigolion gyfleoedd i ddatblygu eu medrau er budd y disgyblion. Mae staff yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn ac mae eu gwaith wedi cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth a'r addysgu yn yr ysgol. Er enghraifft, mae staff yn cydweithio â chydweithwyr o ysgolion eraill i ddatblygu eu medrau mewn addysgu llafaredd, ac wedyn yn defnyddio'r dulliau hyn i wella safonau siarad a gwranddo ymhlith eu disgyblion eu hunain.

Mae arweinwyr yn cynllunio i athrawon asesu eu hunain yn unol â'r safonau addysgu ac arwain proffesiynol er mwyn nodi meysydd y gallent ddymuno eu datblygu ymhellach. Mae staff yn ymgymryd ag elfennau o ddeialog ac ymchwil broffesiynol er mwyn treialu gwahanol weithgareddau a strategaethau. Mae hyn yn annog ac yn cefnogi datblygiad personol unigoliedig yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn monitro cyllideb yr ysgol yn ofalus ac yn gwneud penderfyniadau priodol am wario cyllid grant penodol. Mae lefel staffio'r ysgol yn briodol ar draws y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae arweinwyr yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol i ddarparu ymyriadau llwyddiannus ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da dros gyfnod.

Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2020